**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg**
**7 Chwefror 2023**
**Yr Adroddiad Cyffredinol**

## Y prawf

Cynhaliwyd y prawf ar 7 Chwefror 2023 'o bell' gan ddefnyddio Zoom. Roedd y trefniadau technegol dan ofal CTV Sound Studios, Caerdydd, gyda pheiriannydd sain proffesiynol yn gyfrifol am ddarlledu'r darnau prawf ar Zoom ac am recordio cyfieithiadau'r ymgeiswyr. Goruchwyliwyd y broses brofi gan Reolwr Systemau'r Gymdeithas.

## Y darnau prawf

### Darn 1:

Lansiad *Y Pump*, cyfres o nofelau i bobl ifanc. Cynhaliwyd y sesiwn ar Zoom fel rhan o Sesiwn Fawr Digi-Dol 2021. Manon Steffan Ros oedd yn cadeirio sgwrs anffurfiol gyda rhai o awduron y gyfres, Marged Wiliam, Iestyn Tyne, a chydlynydd y prosiect, Elgan Rhys.

### Darn 2:

Rhan o un o gyfarfodydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y bumed Senedd. Roedd y sesiwn graffu'n canolbwyntio ar adroddiad blynyddol Estyn ac, wedi cyflwyniad byr yn Saesneg gan y Cadeirydd, holodd Llŷr Gruffydd gyfres o gwestiynau i Brif Arolygydd ei Mawrhydi, Meilyr Rowlands.

Roedd yr aseswyr o'r farn bod y darnau'n addas ac yn brawf teg ar allu cyfieithydd ar y pryd. Darparwyd gwybodaeth gefndir tebyg i'r hyn a fyddai ar gael i gyfieithydd proffesiynol wrth iddo baratoi i ymgymryd â'i ddyletswyddau.

## Y safon

Roedd y cyfieithu'n gywir a chadarn ar y cyfan er bod llithriadau ar brydiau'n torri ar lif y sgwrs.

## Geirfa

Roedd yr eirfa gyffredinol yn gryf a gwnaed defnydd effeithiol o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd:

*cysyniad > concept*
*grymuso > empower*
*galwad agored > open call*
*triw > authentic*
*rhinweddau > characteristics*
*hunaniaeth > identity*
*camddehongli > misinterpreted*
*dilyniant > progression*
*gwyliadwrus > vigilant*

*addysgeg > pedagogy* (er bod yr ynganiad wedi peri trafferth)
*baich gwaith > workload*

Fodd bynnag, nid pob gair oedd yn taro deuddeg a methwyd â chynnig cyfieithiadau o rai geiriau:

*anghyfrifol > unfair*
*gweddnewid > change*
*manylebau > schedules (*ond fe gamynganwyd y gair yn y gwreiddiol)
*ysgol gyfun Gymraeg > a Welsh school*
*caboledig > good*
*cyfrifol* > [dim cynnig]
*Ramadan* > [dim cynnig]

**Deall, dehongli a chywirdeb**

Llwyddwyd i gyfleu natur a naws y drafodaeth yn effeithiol, a chafwyd cyfieithiadau cyflawn a fyddai, o ran eu cynnwys, yn ennyn hyder cynulleidfa. Er bod tueddiad ar adegau i gwympo'n rhy bell y tu ôl i'r gwreiddiol a brysio wrth geisio adennill tir, ni chollwyd gafael ar ystyr y cyfraniadau gwreiddiol.

**Cystrawen, cywair ac idiom**

Dros y blynyddoedd diwethaf, ym maes cystrawen ac idiom y gwelwyd y gwendidau pennaf wrth i Saesneg clogyrnaidd, anidiomatig danseilio ymdrechion sawl ymgeisydd.

Fodd bynnag, y tro hwn, er nad oedd pob ymadrodd yn gweddu'n union (*a fleet of changes / get rid of staff),* roedd y cyfieithu'n rhywiog a naturiol a'r ramadeg, y gystrawen a'r idiom yn cyfleu naws y gwreiddiol:

*sets her apart*
*continually evolving*
*go hand in hand*
*hinders development*

**Arddull a chyflwyniad technegol**

Roedd tueddiad ar adegau i'r cyfieithiadau fod ychydig yn undonog, a dylid ceisio amrywio tôn y llais er mwyn rhoi lliw i'r sgwrs a gwahaniaethu rhwng y gwahanol siaradwyr. Fodd bynnag, er gwaethaf pob ymdrech i sicrhau bod y prawf yn adlewyrchu profiad dydd i ddydd y cyfieithydd ar y pryd, mae cyfieithu dan amodau prawf yn siŵr o chwarae ar y nerfau a gellid maddau'r tueddiad i ganolbwyntio ar y cynnwys ar draul y cyflwyniad ar adegau.

**Y Canlyniad**

Dyfarnwyd bod un ymgeisydd yn llwyddo'r tro hwn.

Anogir pob ymgeisydd ym mhob prawf, y llwyddiannus a'r aflwyddiannus fel ei gilydd, i barhau i fireinio'u sgiliau ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio perthnasol sydd ar gael iddynt.

**Gair o ddiolch**

Hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrwyadl ac i staff y Gymdeithas a'r Prif Arholwr CAP am eu cymorth, eu cefnogaeth a'u harweiniad gydol y broses brofi hon.